# Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024

2024 dsc 1

Nodiadau Esboniadol

# Health Service Procurement (Wales) Act 2024

2024 asc 1

Explanatory Notes

**£8.14**

# DEDDF CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU) 2024

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn yn ymwneud â Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 14 Tachwedd 2023 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 5 Chwefror 2024.

2. Lluniwyd y nodiadau gan Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Nid ydynt yn rhan o'r Ddeddf ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan y Senedd.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol hyn ar y cyd â'r Ddeddf. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf. Pan fo'n ymddangos nad oes angen unrhyw esboniad na sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

### TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

4. Mae 5 adran i'r Ddeddf. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023, a fyddai fel arall yn berthnasol wrth gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, i'r graddau y mae darpariaeth amgen wedi ei gwneud mewn cysylltiad â hynny. Mae'r Ddeddf hefyd yn galluogi Gweinidogion i greu cyfundrefn gaffael amgen newydd ar gyfer y gwasanaethau hyn. Nid yw'n rhagnodi manylion ynghylch cynnwys unrhyw gyfundrefn newydd, a fyddai'n cael eu nodi yn y rheoliadau a wneir o dan y pŵer y mae'r Ddeddf yn ei fewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

5. Nid yw'r Ddeddf ond yn gymwys i gaffael gwasanaethau a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd, a nwyddau neu wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny. Bydd ffurfiau eraill ar gaffael a gyflawnir gan y sector iechyd yn parhau'n ddarostyngedig i reolau presennol Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, hyd nes y caiff y rhain eu disodli gan unrhyw ddiwygiadau caffael ehangach yn y dyfodol.

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### Adran 2 – Pŵer i ddatgymhwyso rheolau caffael mewn perthynas â chaffael y GIG yng Nghymru

6. Mae adran 2 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau yn Neddf Caffael 2023, i'r graddau y maent yn anghyson â darpariaethau amgen a wneir mewn cysylltiad â chaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Gwneir hyn drwy fewnosod adran newydd 120A yn Neddf Caffael 2023.

# HEALTH SERVICE PROCUREMENT (WALES) ACT 2024

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes relate to the Health Service Procurement (Wales) Act 2024 which was passed by Senedd Cymru on 14 November 2023 and received Royal Assent on 5 February 2024.

2. The notes have been prepared by the Welsh Government's Health and Social Services Group in order to assist the reader of the Act. They do not form part of the Act and have not been endorsed by the Senedd.

3. These Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act. They are not meant to be a comprehensive description of the Act. Where an individual section of the Act does not seem to require any explanation or comment, none is given.

### GENERAL OVERVIEW OF THE ACT

4. The Act has 5 sections. It enables the Welsh Ministers to disapply provisions of the Procurement Act 2023, that would otherwise be relevant when procuring services provided as part of the health service in Wales, to the extent that alternative provision is made in that respect. The Act also enables Ministers to create a new alternative procurement regime for these services. It does not prescribe detail about the content of any new regime, which would be set out in the regulations made under the power the Act inserts into the National Health Service (Wales) Act 2006.

5. The Act only applies to the procurement of services provided as part of the health service, and goods or other services that are connected to those health services. Other forms of procurement carried out by the health sector will remain subject to the current Public Contract Regulations 2015 rules, until these are replaced by any future wider procurement reforms.

### COMMENTARY ON SECTIONS

#### Section 2 – Power to disapply procurement rules in relation to NHS procurement in Wales

6. Section 2 of the Act enables the Welsh Ministers to disapply provisions of the Procurement Act 2023, to the extent that they are inconsistent with alternative provisions made in respect of the procurement of health services in Wales. This is done by inserting a new section 120A into the Procurement Act 2023.

7. Mae is-adran (1) o'r adran newydd 120A yn darparu'r pŵer y cyfeirir ato uchod i Weinidogion Cymru, sydd i'w arfer drwy wneud rheoliadau (drwy offeryn statudol).

8. Mae is-adran (2) yn darparu gwybodaeth ychwanegol am sut y mae'r pŵer yn is-adran (1) yn gweithredu, drwy ddiffinio dau derm perthnasol.

9. Yn gyntaf, mae'n esbonio mai ystyr y cyfeiriad yn is-adran (1) at 'regulated health service procurement in Wales' yw caffael nwyddau a gwasanaethau a gyflawnir gan 'relevant authority' o dan y trefniadau a wneir o dan adran newydd 10A sydd wedi ei mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan adran 3 o'r Ddeddf hon. Mae'r pŵer i ddatgymhwyso'r darpariaethau hyn ar gael i Weinidogion Cymru ni waeth a yw rheoliadau a wneir o dan yr adran newydd 10A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi dod i rym.

10. Yn ail, mae is-adran (2) hefyd yn esbonio bod i'r cyfeiriad at 'relevant authority' yr un ystyr ag a geir yn yr adran newydd 10A sydd wedi ei mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn golygu bod y term 'relevant authority' yn cynnwys awdurdodau lleol yng Nghymru, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG (er enghraifft Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) ac awdurdodau iechyd arbennig (er enghraifft Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru).

11. Yn unol ag adran 122(10) o Ddeddf Caffael 2023, mae rheoliadau a wneir o dan yr adran sydd wedi ei mewnosod yn y Ddeddf honno gan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Senedd Cymru eu cymeradwyo cyn y gellir eu gwneud.

**Adran 3 – Caffael gwasanaethau etc. fel rhan o'r GIG yng Nghymru**

12. Dylid darllen yr adran hon ar y cyd ag adran 2, gan ei bod yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i roi trefniadau newydd yn eu lle ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Os bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd drwy reoliadau a wneir o dan yr adran hon, bydd rhwymedigaeth ar awdurdodau perthnasol i ddilyn y trefniadau hynny yn hytrach na deddfwriaeth gaffael ehangach wrth gaffael gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y trefniadau newydd hyn, unwaith y cânt eu cyflwyno, yn cymryd lle'r trefniadau o dan Ddeddf Caffael 2023, y mae Gweinidogion yn gallu eu datgymhwyso drwy reoliadau a wneir o dan adran 2 ond dim ond i'r graddau y maent yn gymwys i gaffael gwasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

13. Mae adran 3 yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i gyflwyno gofynion deddfwriaethol newydd drwy reoliadau. Byddai'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion sy'n gymwys i'r modd y mae awdurdodau perthnasol yn caffael gwasanaethau fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, yn ogystal â nwyddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau iechyd hynny.

14. Mae'r Ddeddf yn gwneud hyn drwy ddiwygio Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i fewnosod adran newydd (adran 10A). Mae geiriad llawn yr adran newydd sy'n cael ei mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 wedi ei nodi yn is-adran (2).

7. Subsection (1) of the new section 120A provides the Welsh Ministers with the power referred to above, which is to be exercised by making regulations (by statutory instrument).

8. Subsection (2) provides additional information about how the power in subsection (1) operates, by defining two relevant terms.

9. First, it explains that the reference in subsection (1) to 'regulated health service procurement in Wales' means the procurement of goods and services carried out by a 'relevant authority' under the arrangements made under a new section 10A that is inserted into the National Health Service (Wales) Act 2006 by section 3 of this Act. The power to disapply these provisions is available to the Welsh Ministers irrespective of whether regulations made under the new section 10A of the National Health Service (Wales) Act 2006 have come into force.

10. Second, subsection (2) also explains that the reference to a 'relevant authority' has the same meaning as found in the new section 10A inserted into the National Health Service (Wales) Act 2006. This means that the term 'relevant authority' includes local authorities in Wales, Local Health Boards, NHS Trusts (for example the Welsh Ambulance Services Trust) and special health authorities (for example Health Education and Improvement Wales, and Digital Health and Care Wales).

11. In accordance with section 122(10) of the Procurement Act 2023, regulations made under the section inserted into that Act, by this Act are subject to the affirmative procedure. This means that they must be approved by Senedd Cymru before they can be made.

## Section 3 – Procurement of services etc. as part of the NHS in Wales

12. This section should be read in conjunction with section 2, as it provides the Welsh Ministers with the ability to put in place new arrangements for health service procurement in Wales. If the Welsh Ministers do introduce new arrangements for health service procurement via regulations made under this section, relevant authorities will be obliged to follow those arrangements rather than wider procurement legislation when procuring services for the health service in Wales. These new arrangements, once introduced, will take the place of arrangements under the Procurement Act 2023, which Ministers are able to disapply through regulations made under section 2 but only to the extent that they apply to the procurement of services for the health service in Wales.

13. Section 3 provides the ability for the Welsh Ministers to introduce new legislative requirements through regulations. These regulations would set out the requirements applying to the procurement of services by relevant authorities as part of the health service in Wales, as well as goods and services which are <u>connected to</u> those health services.

14. The Act does this by amending the National Health Service (Wales) Act 2006 to insert a new section (section 10A). The full wording of the new section being inserted into the National Health Service (Wales) Act 2006 is set out in subsection (2).

15. Mae adran newydd 10A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn cynnwys nifer o faterion y mae rhaid i'r rheoliadau newydd eu cwmpasu. Felly, mae cynnwys y rhain yn ofyniad deddfwriaethol ac nid yw'n fater o ddisgresiwn i Weinidogion Cymru wrth ddatblygu'r rheoliadau. Mae is-adrannau (2) a (3) o'r adran newydd 10A yn darparu bod rhaid i'r rheoliadau gynnwys manylion ynghylch y prosesau y mae angen i awdurdodau perthnasol eu dilyn wrth gyflawni ymarfer tendro cystadleuol, yn ogystal â darparu bod rhaid i'r rheoliadau wneud darpariaeth i sicrhau bod prosesau caffael yn cefnogi tryloywder, tegwch, gwirio cydymffurfedd a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau. Mae is-adran (4) yn cynnwys gofyniad bod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori'n briodol â'r cyhoedd a chyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a ddaw i law cyn gwneud rheoliadau.

16. Mae is-adran (6) o'r adran newydd 10A yn darparu bod rhaid i reoliadau sy'n manylu ar gyfundrefn newydd ar gyfer caffael y gwasanaeth iechyd ddod gyda chanllawiau priodol. Mae is-adran (7) yn gosod gofyniad cyfatebol ar awdurdodau perthnasol i roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn.

17. Mae is-adran (8) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r modd y gweithredir rheoliadau ac i gyhoeddi casgliadau'r adolygiad o fewn 5 mlynedd wedi i'r rheoliadau ddod i rym.

18. Mae is-adran (9) yn diffinio 'relevant authorities' at y dibenion hyn – mae'r diffiniad yr un fath â'r un y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o'r Nodiadau Esboniadol hyn.

19. Mae is-adran (3) o adran 3 o'r Ddeddf yn gwneud ychwanegiad cysylltiedig pellach at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hyn yn ychwanegu'r rheoliadau y caniateir eu gwneud o dan yr adran newydd 10A, sydd newydd ei mewnosod, o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 at y rhestr o reoliadau (yn y Ddeddf honno) sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae hyn yn golygu bod rhaid i Senedd Cymru eu cymeradwyo cyn y gellir eu gwneud.

### Adran 5 – Enw byr

20. Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024.

## COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

21. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:
**Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) (senedd.cymru)**

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 13 Chwefror 2023 |
| Cyfnod 1 – Dadl | 9 Mai 2023 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 7 Mehefin 2023 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 10 Hydref 2023 |

15. The new section 10A of the National Health Service (Wales) Act 2006 includes a number of matters that must be covered by the new regulations. Inclusion of these is therefore a legislative requirement and not a discretionary matter for the Welsh Ministers in developing the regulations. Subsections (2) and (3) of the new section 10A provide that the regulations must include detail about the processes relevant authorities need to follow when carrying out a competitive tendering exercise, as well as providing that the regulations must make provision to ensure that procurement processes support transparency, fairness, verification of compliance, and manage conflicts of interest. Subsection (4) includes a requirement that the Welsh Ministers must undertake appropriate public consultation and publish a summary of received responses before making regulations.

16. Subsection (6) of the new section 10A provides that regulations detailing a new regime for health service procurement must be accompanied by appropriate guidance. Subsection (7) places a corresponding requirement on relevant authorities to take account of this guidance.

17. Subsection (8) places a duty on the Welsh Ministers to review the operation of regulations and publish the conclusions of the review within 5 years of the regulations coming into force.

18. Subsection (9) defines 'relevant authorities' for these purposes – the definition is the same as that referred to in paragraph 10 of these Explanatory Notes.

19. Subsection (3) of section 3 of the Act makes a further related addition to the National Health Service (Wales) Act 2006. This adds the regulations that may be made under the newly inserted section 10A of the National Health Service (Wales) Act 2006 to the list of regulations (in that Act) that are subject to the affirmative procedure. This means that they must be approved by Senedd Cymru before they can be made.

### Section 5 – Short title

20. The short title of this Act is the Health Service Procurement (Wales) Act 2024.

## RECORD OF PROCEEDINGS IN SENEDD CYMRU

21. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the Senedd. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the Senedd website at:
**Health Service Procurement (Wales) Act 2024 (senedd.wales)**

| **Stage** | **Date** |
|---|---|
| Introduced | 13 February 2023 |
| Stage 1 – Debate | 9 May 2023 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 7 June 2023 |
| Stage 3 Plenary - consideration of amendments | 10 October 2023 |

*Mae’r nodiadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 (dsc 1) a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 5 Chwefror 2024*

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd | 14 Tachwedd 2023 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 5 Chwefror 2024 |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

| **Stage** | **Date** |
|---|---|
| Stage 4 Approved by the Senedd | 14 November 2023 |
| Royal Assent | 5 February 2024 |

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,
ac ar gael o:

**Arlein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Ffôn ac E-bost**
TSO
Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN
Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn Testun: 0333 202 5077

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,
and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich, NR3 1GN
Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070
E-mail: customer.services@tso.co.uk
Textphone: 0333 202 5077

ISBN 978-0-348-11975-6

9 780348 119756